roddir i'r holl Arweinwyr Cyfoed, gellir rhoi pwyntiau ychwanegol tuag at y BEA i Uwch Arweinwyr Cyfoed. Yr un modd, gall staff yn yr ysgolion academaidd argymell rhoi pwyntiau BEA ychwanegol i unrhyw Arweinydd Cyfoed sy'n dangos ymroddiad tu hwnt i'r hyn a ddisgwylir yn y swydd, boed hynny'n golygu cymryd cyfrifoldebau ychwanegol i lenwi bylchau mewn darpariaeth, neu helpu gyda sefyllfaoedd o natur fwy heriol neu hirfaith.

peidio â rhoi pwysau ar fyfyrwyr newydd i wneud gweithgareddau dim ond er mwyn cael gwobr.

Er mwyn cael eu derbyn ar y cynllun, RHAID i bob Arweinydd Cyfoed wneud y canlynol*:

llenwi'r ffurflen gais ar-lein a gaiff ei throsglwyddo wedyn i'r Ysgol Academaidd i'w chadarnhau.

mynd i'r hyfforddiant gorfodol.

pasio'r broses sgrinio h.y. nid oes unrhyw beth anffafriol yn ymddangos yn y geirdaon allanol, yng nghofnodion yr ysgol academaidd neu yng nghofnodion disgyblu'r Brifysgol.

Bydd Arweinwyr Cyfoed sy'n cael eu derbyn ar y cynllun sy'n dangos ymddygiad amhriodol wedyn, yn cael eu tynnu o'r rhestr o Arweinwyr Cyfoed gweithredol, ac ni fyddant yn derbyn tystysgrif nac unrhyw bwyntiau Gwobr Cyflogadwyedd Bangor pellach.
Er mwyn helpu yn hyn o beth, bydd y Cydlynydd Cefnogi Cyfoedion, gyda chefnogaeth Cydlynydd Arweinwyr Cyfoed yr Ysgol yn:

hysbysebu'r sesiynau gwybodaeth recriwtio.

cadw mewn cysylltiad â darpar Arweinwyr Cyfoed drwy eu cyfeiriadau e-bost prifysgol.

arwain darpar Arweinwyr Cyfoed drwy'r prosesau uchod.

Mae’n bwysig bod darpar Arweinwyr Cyfoed yn ymateb yn gyflym i e-byst i sicrhau bod y cais yn cael ei lenwi'n effeithlon a chyflym.

3. Arwain Cyfoed ar Waith

Ar ôl cwblhau'r holl brosesau uchod yn llwyddiannus, bydd enwau ymgeiswyr yn cael eu cynnwys ar y rhestr o Arweinwyr Cyfoed ar gyfer eu hysgolion academaidd. Maent yn gweithio wedyn drwy eu Hysgolion Academaidd; bydd y Cydlynydd Arweinwyr Cyfoed yn yr Ysgol yn trefnu'r gweithgareddau ac yn pennu dyletswyddau a myfyrwyr newydd i bob Arweinydd Cyfoed. Dyna lle caiff gweithgareddau Croeso eu trefnu, a dyletswyddau eu pennu. Mae dwy brif elfen i Arwain Cyfoedion:

cynnig cefnogaeth gyffredinol mewn gweithgareddau cynefino ysgolion a digwyddiadau cymdeithasol.

uchod. Caiff y rhai sy'n ymgymryd â'r dyletswyddau ychwanegol yn aml eu galw'n Brif Arweinwyr Cyfoed. Mae'r dyletswyddau ychwanegol yn dibynnu sut mae'r Ysgol Academaidd yn dymuno trefnu'r garfan o wirfoddolwyr, ac mae'n fater trafod rhwng yr Ysgol a'r Arweinwyr Cyfoed. Gall y cyfleoedd ychwanegol hyn gynnwys:

- bod yn rhan o bwyllgor trefnu.
- ymgymryd â rhan flaenllaw drwy drefnu digwyddiadau a/neu gefnogi Arweinwyr Cyfoed llai profiadol.
- dychwelyd i Fangor